Nodiadau i addysgwyr

Mae'r ffilm Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 ar gyfer plant 11-18 oed yn darparu llawer o gyfleoedd i drafod diogelwch ar-lein, hunaniaeth ar-lein a chynrychiolaeth ar-lein gyda dysgwyr.

Mae'r adnodd hwn yn darparu rhai cwestiynau ac awgrymiadau i arwain trafodaeth ar ôl gwylio'r ffilm gyda dysgwyr.

*Sylwer: Gall y trafodaethau sy'n deillio o wylio'r ffilm hon gynnwys pynciau sensitif. Mae'r ddogfen '**Sefydlu Amgylchedd Dysgu Diogel a Chefnogol**' ym Mhecynnau Addysg Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 yn darparu cyngor ar sut i sefydlu rheolau sylfaenol a neilltuo lle diogel i ddysgwyr drafod materion ar-lein sy'n berthnasol iddyn nhw.*

Thema'r ffilm - Ydych chi'n #freetobe eich hun ar-lein?

Mae'r ffilm hon yn archwilio dwy thema allweddol sy'n ymwneud â hunaniaeth ar-lein:

1. A yw pobl yn rhydd i fod yr hyn ydyn nhw (free to be) ar-lein?
2. Ydych chi'n meddwl bod pawb yn cael eu cynrychioli'n deg ar-lein?

Mae trafod y themâu hyn â dysgwyr yn rhoi cyfle i archwilio:

- sut maen nhw'n defnyddio ac yn diffinio eu hunain mewn mannau ar-lein,
- eu canfyddiadau ynghylch rhyddid a dewis ar-lein,
- eu barn ar gynrychiolaeth a'u profiadau o gynrychiolaeth ar-lein,
- a'r rhesymau pam gall pobl ddewis cuddio agweddau ar eu hunaniaeth ar-lein.

Cwestiynau allweddol

Cyn gwylio'r ffilm:

'Beth mae hunaniaeth ar-lein yn ei olygu i chi?'

Cwestiynau cynorthwyol:

- Beth yw hunaniaeth?
- A yw eich gweithgareddau/diddordebau ar-lein yn diffinio pwy ydych chi ar-lein?
- Sut ydych chi'n mynegi eich hun ar-lein - a yw hynny'n wahanol i sut rydych chi'n mynegi eich hun all-lein? Pam/pam ddim?

Cyn gwylio'r ffilm, mae'n bosibl yr hoffech chi ofyn y cwestiwn allweddol hwn i ddysgwyr am hunaniaeth ar-lein i archwilio eu cysyniad o hunaniaeth a sut gallai fod yn gysylltiedig ag amgylcheddau ar-lein. Pwynt allweddol i'w archwilio yw a yw eu gweithgarwch ar-lein yn diffinio eu hunaniaeth ar-lein ynteu a yw'n cael ei lunio gan eu hunaniaeth 'o ddifri', ynteu a yw ffactorau eraill yn chwarae rhan wrth ddiffinio eu hunaniaeth ar-lein.

Gofynnwch i'r dysgwyr sut maen nhw'n portreadu eu hunain ar draws y gwahanol apiau a gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio (yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol) - a yw'r ddelwedd yn gyson ynteu a oes gwahaniaethau? Beth allai fod y rheswm (rhesymau) am hyn (e.e. gwahanol grwpiau cymdeithasol ar-lein, gwahanol ddisgwyliadau/pwysau mewn gwahanol fannau ar-lein, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i adeiladu presenoldeb cyhoeddus o'i gymharu â chynnal hunaniaeth breifat ar-lein, ac ati)?

Ar ôl gwylio'r ffilm:

'Do you use avatars online?'

A yw pobl yn rhydd i fod yr hyn ydyn nhw (free to be) ar-lein?

Cwestiynau cynorthwyol:

- Beth ydych chi'n meddwl mae 'rhydd i fod yr hyn ydyn nhw' yn ei olygu i rywun ar-lein? Sut beth yw hynny?
- Beth sy'n galluogi pobl i fod yr hyn ydyn nhw/yr hyn hoffen nhw ei fod ar-lein?
- Beth sy'n rhwystro pobl (neu'n gweithredu fel rhwystr) rhag bod yr hyn ydyn nhw/yr hyn maen nhw eisiau bod ar-lein?

> Ydyn, oherwydd ni ddylid rhoi pobl dan bwysau dim ond oherwydd eu bod yn wahanol. Dylai pobl allu bod yn nhw eu hunain.
>
> Dysgwr uwchradd o Loegr*

> Na, gan fod yn rhaid i ni bob amser wneud i'n hunain edrych yn well nag ydyn ni mewn bywyd go iawn.
>
> Dysgwr uwchradd o'r Alban*

Defnyddiwch y cwestiynau cynorthwyol i ddechrau trafodaeth am ryddid i fynegi eich hun ar-lein. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis sylwadau neu syniadau penodol wnaethon nhw eu clywed yn y ffilm maen nhw'n cytuno/anghytuno â nhw.

Gallai rhai pwyntiau trafod gynnwys:

- Mannau a thechnoleg ar-lein sy'n cynnig cyfle i fynegi eich hun yn rhydd.
- Derbyn (neu fethu derbyn) gwahanol fathau/grwpiau o bobl ar-lein.
- Argaeledd cymunedau o'r un anian y gall unigolyn ddewis ymuno â nhw neu ryngweithio â nhw.
- Pwysigrwydd cael eich gwerthfawrogi a'ch derbyn mewn mannau/cymunedau ar-lein o gymharu â chael eich gwerthfawrogi a'ch derbyn all-lein.
- Sut gall ffactorau allanol fel bwlio ac ymddygiad ymosodol atal neu siapio sut mae rhywun yn mynegi ei hunaniaeth ar-lein.
- Sut gall ffactorau mewnol fel hyder, delwedd y corff a hunan-barch atal neu siapio sut mae rhywun yn mynegi ei hunaniaeth ar-lein.

'Ydych chi'n meddwl bod pawb yn cael eu cynrychioli'n deg ar-lein?'

Cwestiynau cynorthwyol:

- Pwy/pa fathau o bobl sy'n cael mwy/llai o gynrychiolaeth?
- A yw nodweddion penodol wedi eu tangynrychioli? (e.e. hil, crefydd, hunaniaeth rywiol, cenedligrwydd, ac ati)
- Beth ydych chi'n meddwl allai fod yn rhwystrau i gynrychiolaeth deg? (e.e. mynediad at y rhyngrwyd/ gwasanaethau, pryderon am ddiogelwch, diffyg 'modelau rôl', awydd i fod yn breifat? ac ati.)

> Na, mae'r rhan fwyaf o'r rhyngrwyd yn Saesneg, er bod gwahanol bobl yno.
>
> Dysgwr uwchradd o Gymru*

Defnyddiwch y cwestiynau cynorthwyol i drafod barn dysgwyr ar ba mor dda mae'r rhyngrwyd yn cynrychioli gwahanol grwpiau a mathau o bobl. Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis sylwadau neu syniadau penodol wnaethon nhw eu clywed yn y ffilm maen nhw'n cytuno/anghytuno â nhw.

Gallai rhai pwyntiau trafod gynnwys:

- Y gwahaniaeth rhwng tangynrychiolaeth a chamgynrychiolaeth gwahanol fathau o bobl ar-lein - a yw rhai pobl ddim yn cael eu cydnabod/gweld/clywed ar-lein, ynteu a oes eraill yn ceisio eu portreadu mewn

ffordd negyddol?

- A yw mater 'cynrychiolaeth deg' yn gwella ynteu'n gwaethygu? - gweler 1:05 - 1:27 am bersbectif un unigolyn ifanc lle mae'n mynegi ein bod ni mewn 'cyfnod lle mae pawb yn cael newid' - a yw dysgwyr yn cytuno ynteu'n anghytuno?
- A yw 'modelau rôl' a dylanwadwyr ar-lein yn adlewyrchu amrywiaeth eu cynulleidfaoedd?
- Y disgwyliadau tuag at wahanol grwpiau ar-lein e.e. a yw'r rhyngrwyd yn ei chyfanrwydd yn oddefgar tuag at ymddygiad plant (nad yw yr un fath ag oedolion) neu ymddygiad gan y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anghenion dysgu?

Sylwer: Yn dibynnu ar brofiadau dysgwyr, gall y drafodaeth droi tuag at fathau o gynrychiolaeth neu driniaeth annheg o bobl a grwpiau ar-lein, gan gynnwys enghreifftiau o sylwadau casineb ar-lein. Mae Pecyn cymorth SELMA yn darparu adnoddau am ddim i unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl ifanc i archwilio materion yn ymwneud â sylwadau casineb ar-lein.

'Pam fyddai rhywun yn creu hunaniaeth ar-lein wahanol i'w hunaniaeth all-lein?'

Trafodwch gyda'r dysgwyr y cymhellion dros gymryd hunaniaeth wahanol ar-lein a'r effaith y gallai hyn ei chael ar lesiant a diogelwch defnyddiwr, ac eraill ar-lein.

Gallai rhai pwyntiau trafod gynnwys:

- Pwysau cyfoedion/grwpiau neu bwysau cymdeithasol sy'n annog pobl i ddefnyddio gwahanol hunaniaethau.
- Rhagfarnau a gwahaniaethu sy'n atal pobl rhag dangos eu gwir hunaniaeth ar-lein.
- Defnyddio hunaniaeth neu bersona gwahanol ar-lein i archwilio ac arbrofi gyda hunaniaeth a hunanfynegiant.
- Creu hunaniaeth ar-lein wahanol fel strategaeth amddiffynnol ar gyfer rheoli gwybodaeth bersonol neu osgoi ymddygiad ymosodol neu aflonyddgar.
- Cymhellion maleisus dros guddio gwir hunaniaethau - i alluogi ymddygiad troseddol, i fwlio/aflonyddu/trolio, i drin neu ecsbloetio eraill, ac ati.
- Mabwysiadu persona gwahanol ar gyfer gwahanol fannau ar-lein, e.e. rhwydwaith cymdeithasol rhannu lluniau, tylwyth gemau, bwrdd negeseuon dienw yn trafod materion moesol/moesegol, ac ati.

*Sylwer: Fe allai rhai dysgwyr rannu profiadau personol fel rhan o'r drafodaeth hon. Mae'r ddogfen '**Ymdrin â Thestunau Sensitif a Gwybodaeth sy'n Cael ei Datgelu**' ym Mhecyn Addysgwyr Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 yn rhoi cyngor a gwybodaeth ar sut i ymateb i unrhyw ddatgeliad neu bryder diogelu a allai ddeillio o drafodaethau o'r fath.*

'Beth allwn ni ei wneud fel bod y rhyngrwyd yn lle gwell lle mae pobl yn teimlo'n 'rhydd i fod yr hyn ydyn nhw'?'

Trafodwch gyda'r dysgwyr eu meddyliau a'u syniadau ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn i'r rhyngrwyd ddod yn lle gwell a thecach i bawb fynegi eu hunain.

Gallai'r syniadau gynnwys:

- ★ Rôl deddfwriaeth o ran newid ymddygiad (e.e. deddfau cryfach i lywodraethu ar sylwadau casineb neu fwlio)
- ★ Rôl y diwydiant rhyngrwyd (e.e. Rhagor o gymedrolwyr, sancsiynau cryfach am ymddygiad maleisus, rhagor o breifatrwydd, mwy o gamau i annog defnyddwyr i ymddwyn yn gadarnhaol ac yn barchus, ac ati.)
- ★ Rôl addysg (e.e. cyfleoedd i ddysgu mewn ysgolion/colegau)
- ★ Rôl oedolion (e.e. rhieni/gofalwyr, addysgwyr, modelau rôl neu ddylanwadwyr ar-lein).
- ★ Rôl pobl ifanc (e.e. eu cyfoedion, modelau rôl neu ddylanwadwyr ar-lein).

**Dyfyniadau wedi eu cymryd o weithdai Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 cyn ffilmio.*